

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW
MAI 22^{AIN} 2024 AM 7:30Y.H
CYNHALIWDYD YNG NGWYTHERIN

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Eimir Williams (EW), Ann Vaughan (AV) (i fod dros *zoom* ond roedd problemau technegol), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Sara Thomas (ST), Euros Williams (EUW), Austin Roberts (AR) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

1.3 Ymddiheuriadau: Jane Roberts (JR), Mark Davies (MD), Gwydion Jones (GJ)

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 DEWIS SWYDDOGION

Cadeirydd - EW yn cynnig CR gyda MGD yn eilio. Derbyniodd CR.

Is-gadeirydd - Pawb yn cytuno i ofyn i EW barhau, EW yn derbyn.

Is-bwyllgorau

- Mynwentydd - AV, MD, CR, EUW
- Llwybrau ac amgylchedd - EW, DR a MGD
- Pwyllgor y Ganolfan - CR a MD
- Llywodraethwyr - ST
- Amgueddfa Syr Henry Jones - CR

Cytunodd bawb i barhau gyda'r uchod.

4 COFNODION EBRILL 24^{AIN} 2024 I'W GWIRIO

Cynigwyd yn gywir gan MGD ac eilwyd gan EW .

5 MATERION YN CODI

5.1 Cwrs Cymorth Cyntaf nos Fawrth Mehefin 4ydd am 6 o'r gloch yn neuadd Canolfan Addysg Bro Cernyw, croeso mawr i bawb. Bydd CR, DR, ST a CWG yn mynychu ynghyd ag aelodau o'r cyhoedd sydd wedi cofrestru. Dywedodd MGD i ofyn i'r ysgol ei roi ar Class Dojo ynghyd â phosteri yn y Stag, siop Llangernyw a Lion Gwytherin.

5.2 Sgipiau - wedi ei archebu i Wytherin ar Fehefin 3ydd ond problem gyda'r drwydded ar gyfer Pandy Tudur. Mae Cyngor Conwy eisiau gwybod pam fod y sgip i fynd i'r encilfa benodol honno ym Mhandy ac eisiau rhywun â chyswllt i eiddo cyfagos cyn y gwnant roi trwydded i gael sgip yno. CWG i e-bostio AR i ofyn iddo siarad gyda'r Cyngor Sir.

5.3 Grant ddiffibrilydd - Mae angen dangos fod y cyngor cymuned yn cynnig rhaglen o gyrsiau cymorth cyntaf ac efo polisïau Cyfle Cyfartal a'r Iaith Gymraeg. Mae hyn angen ei wneud cyn 27.6.24 ac wedyn byddent yn rhyddhau'r arian. Mae Tomos Hughes yn cynnal cwrs hyfforddiant cymorth cyntaf ar 4/6/24 ac mae'n fodlon ei gynnig yn flynyddol. Bydd angen cofrestru'r diffibrilydd ar 'The Circuit' ac mae Tomos am yrru enw cyswllt yn y Sir i ddod i benderfynu pa bolyn i osod y diffibrilydd arno.

5.4 Taflen lwfansau - CWG wedi gyrru e-bost i'r IRPW ar 13.5.24 gyda llun o daflen yn dangos y cynghorwyr wedi llofnodi nad ydynt yn derbyn lwfansau ond heb gael ymateb yn ôl ganddynt eto.

6 CEISIADAU CYNLLUNIO

Dim wedi dod i law.

7 MATERION CYNGOR

7.1 Arwyddion beicio'n ddiogel - AV wedi gofyn am ei roi ar yr agenda ond AR am ei drafod yn nes ymlaen o dan adroddiad y cynghorydd sir.

7.2 Datganiad Llywodraethu Blynyddol - yr awdit. Iona wedi e-bostio eisiau tynnu'r cronïadau hanesyddol oddi-yno. MGD yn dweud fod Iona yn cynghori a'i bod yn gyfrifydd siartedig. DR yn dweud fod angen gwneud cronïadau a'r cynghorwyr sy'n gyfrifol os nad yw pethau yn cael eu gwneud yn gywir. DR yn dweud fod y cyngor cymuned yn talu i Un Llais am gyngor ac EW yn nodi nad yw cynghorau eraill yn gwneud cronïadau. Penderfynwyd i CWG ofyn i Un Llais am arweiniad yna pasio ymlaen yr ateb i CR a phawb yn hapus i ddilyn y cyngor yma.

Mae Iona Williams wedi bod dros y cyfrifon fel archwilydd mewnol ac yn cytuno gyda'r ffigyrau a'r eglurhad dros unrhyw amrywiaeth. Trafodwyd yr adroddiad, pasiwyd gan y cyngor ac arwyddwyd gan CR a CWG.

Wedi ei anfon i bob cynghorydd ar e-bost er gwybodaeth:

7.3 Diolch am 20

7.4 Bwletin Un Llais Cymru

7.5 Dyddiadau hyfforddiant Mis Mai a Mehefin Un Llais Cymru

7.6 Lansio adnoddau newydd Bioamrywiaeth Un Llais Cymru ar Fai 21ain 0 11-1 ar zoom

7.7 Gweminarau Un Llais ar gyfer yr argyfwng costau byw ac arweiniad i drafnidiaeth gymunedol

7.8 Datblygu Dan Arweiniad y Gymuned yng Nghonwy - ac ar y wefan hefyd

7.9 Ymgynghoriad cyhoeddus ar barhau i atal ac ymateb i argyfyngau

7.10 Cynhadledd Arfer Arloesol ddydd Mercher 3ydd Gorffennaf

7.11 Gweminar Un Llais Cymru "A yw'r Argyfwng Costau Byw Drosodd?"

Wedi ei anfon i DR er gwybodaeth:

7.12 Lansio Adnoddau Newydd Bioamrywiaeth Un Llais Cymru - digwyddiad *zoom*

Atgoffa:

7.13 Cwrs Côt ymddygiad i CR a MD ar 5.6.24 o 6:30-8, manylion *zoom* i ddilyn.

8 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

8.1 Torri gwair yng Nglan Collen - mae yn gamgymeriad fod y rhimyn gwair wedi ei adael heb ei dorri a bydd y cyngor yn ei dorri'r wythnos hon.

8.2 Goleuadau Sgubor newydd - maent am fod yno am o leiaf 2 fis arall. Maent am batsio dros dro hyd nes fod yr arian yno i wneud y gwaith yn iawn. Mae AR wedi ffonio prif beiriannydd y cyngor gan ddweud nad yw yn gost effeithiol ac am ddal ati i fynd ar ei ôl ac am siarad gyda'r cyfarwyddwr cyllid.

8.3 Allt Ty'n Pistyll wedi ei goncritio - nododd DR ei bod yn ddiolchgar iawn fod y gwaith wedi ei gyflawni.

8.4 Damwain angheuol - AR wedi trefnu cyfarfod gyda Dylan Jones, pennaeth yr adran ffyrdd dydd Mercher nesaf. Mae Emyr Jones yn cytuno y dylid bod terfyn cyflymder o 40 m.y.a. yn yr ardal.

8.5 Problemau ddiffyg dŵr yn Llangernyw - AR wedi cael cwyn fod y pentref heb ddŵr dydd Sul. Bydd yn cysylltu gyda Dŵr Cymru i gael eglurhad.

8.6 Gwaith ar y ffordd rhwng Llangernyw a Llansannan o Rhydedden i Gefn Groes Mawr i gychwyn dydd Mawrth nesaf o dan reolaeth goleuadau traffig.

8.7 Pont Pandy Tudur - cafwyd cais gan aelod o'r cyhoedd i rywun ei archwilio. Darganfyddwyd bod difrod ond fod y bont dal yn iawn i'w ddefnyddio. Mae wedi ei wthio i fyny'r rhestr i gael ei wneud yn gynharach nag y cynlluniwyd.

8.8 Difrod i'r bont rhwng Tai Pella a Thu Hwnt i'r Bont - mae'r cyngor wedi rhoi ffens i fyny. Nid oedd y cyngor wedi deall mai nhw sydd ei biau felly rŵan eu bod yna byddent yn ei sortio yn fuan.

8.9 Bu i AR gwrdd â John Davies o'r Adran Addysg a oedd yn ddigon hapus bod y tir o gwmpas y cae bob tywydd yn mynd i ddwylo'r adran asedau. Byddent yn gofyn i wahanol adrannau o'r cyngor os ydyn nhw eisiau gwneud rhywbeth gyda'r tir. Dau syniad posib yw rhandiroedd neu dai fforddiadwy. Dywedwyd bod arian ar gael gan FAW Cymru i wneud y cwrt yn un 4G fel ased i'r gymuned. Nid yw DR yn gallu darganfod y gwaith papur gan Mr John Hughes sydd yn dweud pwy sy'n berchen y darn o dir ar y funud. Gofynnodd beth y dylai ei wneud os ydi yn ei ddarganfod? Dywedodd AR wrthi i ddod a'r gwaith papur iddo ef ac mi wnaiff ef roi stop ar bethau. Dywedodd MGD fod yn rhaid i'r defnydd y tir fod er budd y gymuned. Atebodd AR na fyddai dim byd yn digwydd heb fod y gymuned yn hapus iddo ddigwydd. Dywedodd CR fod y rhain yn y tymor hir ond beth sydd am ddigwydd yn y tymor byr? Atebodd AR y bydd angen hel syniadau i ddechrau gydag AR yn dod a nhw gerbron y pwyllgor a ni fyddai penderfyniad heb ganiatâd y cynghorwyr. Dywedodd MGD ei fod wedi cael e-bost yn dweud na fydd mynediad i'r rhan o dir yn ystod amser ysgol er diogelwch. Gofynnodd CR i'r Cyngor Sir ei dacluso am rŵan.

8.10 Roedd AR wedi bod yn bresennol yng nghyngerdd yr ysgol yn ddiweddar ac yn falch iawn o'r gwahoddiad. Dywedodd bod talent arbennig, y cyngerdd yn eithriadol o dda a'r plant a'r athrawon yn haeddu canmoliaeth.

Yn ychwanegol soniodd MGD am ddigwyddiad a ddigwyddodd iddo wrth y Dafarn Newydd ar y B5113, rhwng Foty Pennant a Chorlannau Farm. Roedd ceir Porsche, Lambourghini a.y.y.b wedi ei basio mewn lle peryglus. Roedd car plismon digwydd bod yn pasio ac fe stopiodd y MGD y car i sôn am beth oedd newydd ddigwydd ac i fynegi pryder fod y ffordd yn cael ei ddefnyddio i rasio. Gofynnodd a oedd angen ei godi efo'r adran briffyrdd? Dywedodd AR y buasai yn ei basio ymlaen.

9 MATERION ARIANNOL

9.1 Cyflog CWG -[CWG wedi gadael yr ystafell]. Gan fod CWG wedi bod yn gweithio fel clerc ers dros flwyddyn penderfynwyd ei symud i fyny'r raddfa i fyny i bwynt 19 LC2 sef tâl o £15.48 yr awr gan ôl-ddyddio i Ebrill 1af. CWG i gysylltu gydag Euros i drefnu hyn. Yna, ei adolygu mewn 3 mis pan fydd setliad cyflog 2024-25 wedi ei gadarnhau.

10 GOHEBIAETH

10.1 Pont Pandy Tudur - wedi ei drafod uchod.

10.2 Neges drwy'r wefan gan 'North Wales Pilgrim's Way Group' yn dweud fod yna cryn dipyn yn gwneud y daith gerdded erbyn hyn gan ei fod wedi bod ar y teledu. Roedd yn gofyn a oedd busnesau lleol yn gallu cynnig fwy o lefydd i aros ac efallai tacsis i gludo bagiau a.y.y.b. Cynigiodd DR y Stag a'r Lion.

11 BILIAU

11.1 Ail-gofrestru gyda'r ICO - £40

11.2 Canolfan Gymunedol Bro Cernyw i hurio'r Ganolfan - £15

11.3 Ad-daliad am y T.C.C i CWG - £35.99

11.4 Cyflog mis diwethaf i CWG

11.5 Bagiau baw ci - £64.35 + T.A.W o £12.87, cyfanswm = £77.22

11.6 Enlli - Cyfieithu - £95

11.7 DR - blodau - £40

Pasiwyd i dalu'r uchod i gyd.

12 MATERION LLEOL

DR Gofynnodd am ganiatâd i brynu ychwaneg o flodau, tua £40 eto gyda phawb yn cytuno. Dywedodd bod tomen dail yn y cae criced gyda dŵr yn llifo ohono. Dywedodd EW ei fod yn cael bod yno cyn belled a'i fod dros 5 metr i ffwrdd o ddŵr. Nododd fod y posteri ar yr arwyddion dim baw ci ar y ffens wrth ymyl Parc Aelas ddim yno dim mwy. Bydd yn cysylltu ag AR i ofyn am rai newydd. Roedd Mel sef clercc Betws yn Rhos wedi cysylltu eisiau cymorth a gwybodaeth gan eu bod yn gobeithio cymryd drosodd toiledau'r ardal. Bydd DR yn cysylltu gyda AV i ofyn am arweiniad.

CR Tŷ Du heibio Bethabara - mae cwyn fod bagiau sbwriel yn cael eu gadael allan ac yn denu llygod mawr. CWG i ofyn wrth AR os yw Tŷ Du wedi ei gofrestru fel annedd.

13 CYFARFOD NESAF

Mehafin 26^{ain} 2024 ym Mhandy Tudur.

Cyfarfod yn dod i ben am 21:00 .

Cymerwyd y cofnodion gan CWG.